

Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MAWRTH 1977

RHIF 38

Adfer Caerdydd?

Er bod gen i fy amheumon ynglŷn ag Adfer, rwy'n credu mai da o beth fyddai i Gymry Cymraeg Caerdydd addasu rhai o egwyddorion y mudiad ar gyfer bywyd trefol. Fel mam i deulu nad yw'n naturiol Gymraeg ei iaith, gwelaf yr angen am dynnu'r gwahanol agweddau ar y bywyd Cymraeg yn nes at y rheiny sy'n ymdrechu i ddysgu'r iaith eu hunain, ac sy'n dymuno i'w plant fod yn rhugl yn yr iaith ac yn gysurus ynddi.

Y mae gan y stryd lle'r ydym ni'n byw gyfleusterau da ar gyfer Cymry Cymraeg (Ysgol Feithrin, tafarn Gymraeg, parc ac y mae o fewn cyrraedd i ganol y dref) ond hyd y gwyddom ni, nid oes yma'r un teulu o Gymry Cymraeg gyda phlant o oed ysgol. Dyw Cymry Cymraeg eraill ddim yn siarad Cymraeg a'n plant ni pan fyddant yn ewrdd â nhw, a'chan fod llawer o blant yma, dyw hynny ddim yn syndod.

Mae'r plant yn mynychu'r ysgol Gymraeg yn llwyddiannus, a siaredir tipyn go dda o Gymraeg yn y cartref, ond y mae bron yn amhosib i'w dwyn i fyny heb iddynt deimlo'n isymwybodol mai iaith y cartref, yr ysgol a'r capel yn unig yw'r Gymraeg. Mae arnom angen teuluoedd eraill Cymraeg eu hiaith o fewn cylch agos fel y bydd ein plant ni'n clywed Cymraeg yn cael ei siarad yn y stryd, ac yn gallu chwarae gyda phlant eraill yn yr iaith y gobeithiwn ni y daw'n iaith gyntaf yn hytrach nag ail iaith iddynt.

Dyma'r maes lle teimlaf y dylid addasu gosodiad sylfaenol y Fro Gymraeg i fywyd trefol, er sicrhau nad ynysir teuluoedd Cymraeg, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys plant bach, ac na chyfyngir yr iaith i agweddau arbennig ar fywyd, yn hytrach na datblygu ohoni'n iaith otomatig bywyd beunyddiol.

Ar hyn o bryd, mae 'na dŷ ar werth drws nesâ ond un i ni. Fe groesawem ni ddyfodiad teulu Cymraeg i fyw yno. Mae'n siwr gen i fod teuluoedd eraill yn ein sefyllfa ni yn teimlo'r un fath. Syniad da fyddai i ni gael rhyw ddull o hysbysu Cymry Cymraeg am dai sydd ar werth fel y gellir creu, mewn rhai ardaloedd, cnewyllyn o bobl sydd ag ymrwymiad i weld yr iaith nid yn unig yn parhau

ond hefyd yn ffynni.

Yn naturiol ddigon, mewn sefyllfa felly fe ymosodid arnom a'n cyhuddo o greu ghetto, ond yn fy marn i, y dewis yw naill ai mynd ati fel hyn neu wyllo'r iaith yn edwino ac yn marw. Mae ffigurau diweddaraf y Llywodraeth am ddirywiad yr iaith Gymraeg yn tanlinellu'r peryglon sydd yn ei hwynebu ar hyn o bryd.

Unwaith y bydd gennyh gnewyllyn parhaol o Gymry Cymraeg, fe fydd cyfleusterau megis siopau Cymraeg eu hiaith ac ati yn dilyn yn naturiol, ond bod y gefnog-aeth yn gadarn.

Y fantais arall a fyddai'n codi o hyn yw'r ffaith y byddai dysgwyr o oedolion a gai eu tynnu i mewn i gymuned o'r fath yn ei chael hi'n haws i ddefnyddio'r Gymraeg a dod yn rhugl yn yr iaith; os yw eu plant yn cael addysg Gymraeg, byddai sefyllfa o'r fath yn osgoi unrhyw ymddieithriad y tu fewn i'r teulu. Ar sail fy mhrofiad i fy hun mewn dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, teimlaf mai'r prif reswm fod cymaint o bobl yn rhoi'r gorau i ddysgu yw'r ffaith fod pobl sy'n ceisio dysgu'r iaith yn aml iawn ddim ond yn ei defnyddio unwaith yr wythnos. Mae'n amlwg nad dyma'r ffordd i ddod yn rhugl, ond ni ellir osgoi sefyllfa o'r fath oni cheir cefnogaeth Cymry Cymraeg naturiol.

Mewn rhyw ffordd ryfedd, mae Adfer wedi taro ar y syniad iawn. Ni allaf weld y bydd eu polisïau economaidd yn llwyddiannus fyth, ond gellir cymhwyso eu syniad hwy o'r Gymru Gymraeg i'w ddefnyddio mewn ardaloedd trefol er budd yr iaith a phawb sy'n ei siarad. Caerdydd yw prifddinas Cymru ac ni fyddaf fi fy hun yn fodlon



CYFRINACHOL IAWN!

Gan ddilyn cyhoeddiad Cwmni Teledu Harlech mai nhw fydd yn rhoi'r Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, mae'n bleser gan *Y Dinesydd* gyhoeddi Sgŵp y Ganrif yn y rhifyn hwn! Drwy amryfal a dirgel ffyrdd, llwyddodd un o'n gohebwyrr i gael cipolwg ar y cynlluniau cyfrinachol ar gyfer y Gadair hon, ac fe'u hatgynhyrchir ar dudalennau mewnol y papur. Gan gofio trafferthion y Mri Agee a Hosenball yn Lloegr, a pheryglon y busnes o ddatgelu dogfennau cyfrinachol, ni allwn lai na llongyfarch ein gohebydd ar gynnal safonau uchaf y traddodiad o newyddiaduriaeth ymchwiladol yng Nghymru, heb gyfri'r gost iddo ef ei hun.

(O.N. Hoffai'r Gol. wneud yn hollol glir nad oedd ganddi hi unrhyw ran yn y busnes yma. H.y., ti ar dy ben dy hun, boi!)

nes i mi ei gweld hi — neu o leiaf y rhan fwyaf ohoni — yn Gymraeg ei hiaith. Dyna pryd y byddaf fi'n fodlon fod yr iaith yn mynd i fyw ac, yn bwysicach fyth, yn mynd i dyfu a datblygu.

PENELOPE MEAZEY

TRISTWCH

Gofid i bawb oedd clywed am farwolaeth Mr Brinley Jones, Heath, Caerdydd, yn 62 oed bythefnos yn ôl. Ef oedd tad Heather Jones, y gantores, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Jones a Heather yn eu profedigaeth.

GOLYGYDDOL

Os na all Cymro Cymraeg ddeall pwysigrwydd parhad ein hiaith, ein diwylliant a'n bodolaeth fel cenedl ar wahân, pa obaith sydd i ddechrau egluro hyn i Gymry sydd wedi eu hamddifadu o'r iaith ac o'r herwydd yn gymaint a hynny'n llai abl i wrthsefyll y don o Seisnigrwydd sy'n bygwth ein boddi'n llwyr o fewn y genhedlaeth hon?

Ond dyna ni, mae'r clefyd Prydeinig yn un treiddiol, fel y dangosodd y bleidlais ar y mesur guillotine yr wythnos o'r blaen, a hwyraich nad oes ymwared ohono hyd yn oed i Gymro Cymraeg. Hawdd credu hynny wrth ddarllen y cyfraniad dwl isod i'r Ddadl ar Ddatganoli a ymddangosodd yng ngholofnau llythyron y *Western Mail* yn ddiweddar.

Should it be devil lotion?

SIR.—This subject of devolution has caused so much dissension, disagreement and separation that, as an active Christian and a Welsh-speaking Welshman, I question its value. A child was asked to write down the word devolution. She knew nothing about devolution but had heard about the devil.

Thinking that the devil had something to do with devolution she wrote down "Devil" then paused to think how to write the other part of the word. She noticed a bottle nearby and on it was the word "Lotion."

As I see it, the girl has given us the essence of devolution. Henceforth, the United Kingdom will be known as the divided kingdom. It would be well if we remembered the words to be found in the marriage ceremony, "Whom God hath joined together, let no man cast assunder." The United Kingdom became the world's greatest nation and every part of the world benefited by the unity.

What can a divided nation offer the world? Cymru, ystyrwah yn ddiifrifol yr hyn ydych yn bwriadu gwneud.

W. MORGAN,

Canton, Cardiff.

Rhyfedd gweld un sy'n honni bod yn Gristion yn cyffelybu'r broses o dwyll a choncwast, o ormes a thrais a roddodd fodolaeth i'w "United Kingdom" bondigrybwyll â'r stâd o lân briodas! Ac os yw mor eiddgar i ddyfynu o'i Feibl i gefnogi ei ddadleuon gwleidyddol, hwyrach y caniateir i ninnau ddyfynu o'r un ffynhonnell mewn ateb i'r chwiw sgitsoffrenig sy'n gyrru dyn i son am fod yn "Welsh" ac yn "British" yn yr un anadl:

"Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd; canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a esgeulusa y llall."

* * *

Mae'r Ddadl Fawr ar Addysg yn dod i Gaerdydd ar y 22ain o Fawrth, a da gweld fod dogfen gefndir Swyddfa Addysg Cymru ar y pwnc, "Addysg ein Plant", yn neilltuo adran arbennig ar "Y Gymraeg yn Ysgolion Cymru". Sonia'r ddogfen am broblem prinder athrawon Cymraeg: "Mae dysgu'r Gymraeg yn yr ardaloedd Seisnig rhyn yn cael ei lesteirio gan brinder athrawon sy'n medru'r Gymraeg..." (6.5), a "Bydd cynnal a gwella'r safonau'n dibynnu i raddau helaeth ar gyflenwad digonol o athrawon wedi eu hyfforddi i ddysgu'r Gymraeg fel maes ar wahân ac athrawon

ANNWYL OLYGYDD.

Pleser o'r mwyaf oedd darllen sylwbaeth B.M. yn rhifyn Ionawr/Chwefror ar ein Cyngerdd yn y Theatr Newydd gyda'n gwestai Kyung Wha Chung. Mor brin yw ysgrifau yn y Gymraeg ar faterion cerddorol o safon, a mawr obeithiwn y bydd y math yma o sylwedd (ffafriol neu anffafriol!) yn dod yn rhan gyson o'ch Cylchgrawn.

Mae'ch gohebydd wedi rhoi ei fys (bys!) ar fater pwysig iawn wrth gyfeirio at safon uchel iawn y brif oböydd ac eraill. Fel mae'n digwydd Cymry oedd eu rhugflaenyddion yn y swydd, ond yn drist iawn mae nhw ill dau wedi symud i Gerddorfa yn Llundain am resymau amlwg. Anarferol iawn ydyw i Gymry ymgeisio am swyddi yn y Gerddorfa ac felly mae Cerddorfa Symphoni Gymreig y BBC yn dibynnu'n sylweddol ar gerddorion ifanc o'r tu allan i'n Gwlad. Lle mae'r genhedlaeth gyflawn gyntaf o offerynnwyr Cymru wedi mynd?

Yn gywir iawn,

ARNOLD LEWIS,
(Pennaeth Adran Cerdd),
BBC Cymru,
Llandaf, Caerdydd.

ANNWYL OLYGYDD.

Yr wyf wedi dyfeisio gêm burdd Gymraeg, ac fe hoffwn ei gweld ar y farchnad. A fedr unrhyw gwmni masnachol sydd â diddordeb yn y math yma o gynnyrch gysylltu â fi drwy'r Golygydd. Neu yn wir, buaswn yn dra diolchgar o dderbyn cyngor gan unrhyw un fyddai a diddordeb mewn ehangu'r maes di-lewyrch hwn.

Yn ddiffuant,
"SGRABLWR",
Caerfyrddin.

wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng." (6.7). Onid doethach felly yn hytrach na son am gau colegau hyfforddi yng Nghymru, fyddai ceisio newid pwyslais y tu fewn i'r colegau presenol a chymell llawer mwy o fyfyrwyr (yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr) i arbenigo ym meysydd dysgu Cymraeg fel ail iaith a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Wedyn, yn hytrach nag allforio cannoedd o'n gormodedd athrawon o Gymru i Loegr bob blwyddyn, gallem ddechrau diwallu ein hanghenion addysgiadol pwysicaf ni ein hunain.

* * *

Braint yw cael cynnwys ysgrif deyrnged yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd* i'r cerddor Grace Williams o'r Barri, a fu farw ym mis Chwefror. Hi yn anad neb arall y ganrif hon a fynegodd anian Cymru orau i'r byd cerddorol y tu allan ac er gwaethaf y tristwch a deimlwn o'i cholli, gallwn oll ymlawenhau yn y cyfoeth cerddorol a adawodd ar ei hôl.

O'R POST

ANNWYL OLYGYDD.

Rhaid oedd imi leisio barn ar ddyddiadur y 'Dyn Dwad' ac hefyd ar lythyr Peter Davies (Y Dinesydd, mis Rhagfyr).

Teimlais fod y dyddiadur yn warth, yn cynnwys straeon am yr ymddygiad mwyaf dichwaeth, a bu'r crynodeb o'r ymddygiadau mewn tafarnau yng Nghaerdydd ac yn ystod yr Eisteddfod yn ofid calon i mi.

Cytunaf yn llwyr â diaconiaid Capel Ebeneser ac fe hoffwn sierhau Peter Davies bod o leiaf un person ifanc yng Nghaerdydd ddim yn dal ymddygiad y Dyn Dwad na'i gyfeillion fel "delwedd go iawn o fywyd".

Nid yw'r rhai sydd yn condemnio yr hyn a welwyd yn y Dyddiadur yn "hunan-gyfiawn" o gwbl, ac ynglŷn â'r cyhuddiad bod y Gymraeg yn cael ei llofruddio gan y Capeli, mae hynny yn hollol ddi-sail, oherwydd mewn tafarnau, Saesneg yw'r brif iaith "swyddogol" ar y cyfan.

Yn ogystal â hyn, roedd erthyglau'r Dyn Dwad ymhell o fod yn safonol, yn llawn o regfeydd a geiriau eraill Eingl-Gymraeg, ac roedd yr arddull hefyd yn eithafol o ddi-safon. Ai dyma yw gadael i'r Gymraeg "newid a datblygu, a lledaenu"? Os mai hyn yw canlyniad cefnu ar y Capeli a'r gwerthoedd Cristnogol, yna rwy'n siwr y byddai nifer o Gymry yn barod i wethwynebu ymddygiad y Dyn Dwad a'i gyfeillion.


Yn Gristnogol,

IWAN JONES (17),
Llandaf, Caerdydd.

Fe fydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Ebrill 8fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn MAWRTH 28 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.

SGŴP Y GANRIF!

CEIRIOL
SŴP
GŴP



1. Os mai gwiliwr
HTV fydd yn
fuddugol



2. Os mai gwiliwr
HTV fydd yn
fuddugol



3. Er mwyn osgoi
trafferthion
Steddfod
Aberteifi

Cymdeithas Lenyddol Caerdydd

Dylid nodi fod dyddiad y cyfarfod nesaf wedi newid: fe'i cynhelir yn awr nos Fercher, Mawrth 16eg yn ORIEL am 7.30p.m. pan fydd D. Myrddin Lloyd yn siarad ar y pwnc TRIBANNAU MORGANNWG. Croeso i bawb.

Newid swydd

Penodwyd Siân Morgan, a oedd gynt yn ymchwilydd yn Adran Raglenni Plant Teledu Harlech, yn Gynorthwydd Gweinyddol yn Adran Gerdd C yngor Celfyddydau Cymru. Llongyfarchiadau a phob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

Gwellhad buan

Drwg oedd gennym glywed fod Mr Hywel D. Roberts, Cyfarwyddwr y Mudiad Ysgolion Meithrin, wedi dioddef gwaedd yn ddiweddar, a mawr obeithiwn ei fod wedi gwella'n llwyr erbyn hyn.

Apêl y Ganolfan ar agor o hyd

Ga'i ddiolch yn garedig i bawb sydd wedi cyfrannu i'r gronfa hon. Mae'r cyfanswm nawr yn rhyw £1,200. Dydy'r swm yma ddim yn hanner digon, wrth gwrs, i dalu'r biliâu am y pydredd sych, a mawr ddisgwyliwn am gyfraniadau o hyd. Mae'n braf iawn gweld y Ganolfan yn dod nol i drefn unwaith eto ar ôl ei hafiechyd — y Mudiad Meithrin nôl yn ei swyddfa iawn, y siop wedi ail-agor a'r toiledau yn gweithio eto.

Ond mae costau rhedeg y Ganolfan yn uchel iawn ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn ariannol sydd ar orffen, mae'n trysorydd wedi trafod dros £26,000 o arian. Gobeithiwn gael hwyl eto eleni ar godi tipyn o arian yn yr Eisteddfod yn y Barri — byddwn yn gwerthu hufen ia, fferins, selsgwn, crempolau a ffrwythau yno eleni eto.

Cofiwch, os oes yna unrwyun a hoffai gyfrannu drwy helpu mewn unrhyw ffordd, fe fyddwn yn dra diolchgar. Mae'n debyg fod yna gannoedd o bobl sy erioed wedi gweld y Ganolfan. Beth am i rai ohonoch chi alw i mewn i fwrw golwg dros y lle a chael rhyw syniad o faintiol'r problem o gadw'r lle ar agor?

JOHN ALBERT EVANS,
Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli.

CYRHAEDDWCH

78,500

O DDARLLENWYR

Ffoniwch i gael ein

telerau hysbysebu

CAERDYDD 396262

Y "Brain Drain" yn taro Caerdydd!

Ym mis Mehefin bydd Caerdydd yn colli un o'i gwerthwyr hufen ia amlycaf (i enwi ohd un o'i amryfal weithgareddau) pan fydd John Albert Evans yn dilyn yn ôl traed Madog ac yn croesi'r Iwerydd i'r Unol Daleithau. Pam, meddech chi? Wel na, nid i ddysgu i'r Americanwyr sut i werthu hufen ia — ond, yn fwy rhyfeddol fyth, i gynnal cwrs Cymraeg i ddysgwyr America yng Ngholeg Green Mountain, Vermont!

Drwy lwc (ac y mae'r *Dinesydd* ymhlith llu o fudiadau Cymraeg yng Nghaerdydd fydd yn diolch am hynny), dyw John ddim yn mynd i America am byth: wythnos fydd hyd y cwrs ei hun, ond fe fydd John yn yr Unol Daleithau am ryw dair wythnos i gyd, yn teithio ar hyd a lled Gogledd America, o Efrog Newydd i Washington, gan alw hefyd mewn dinasoedd fel Philadelphia a Baltimore, a chroesi'r ffin i Ottawa, i annerch Cymdeithasau Cymreig a chwedd â Chymry ym mhob rhan o'r wlad.

Cynhelir y cwrs ei hun o dan nawdd y "Celtic Heritage Week", a gwnaethpwyd y trefniadau ar ei gyfer gan ferch o'r enw Ann Cowie, gynt o Gaerdydd. Mae hi yn gyd-olygydd y papur newydd *Ninnau* a sefydlwyd yn ddolen gyswllt rhwng Cymry'r Unol Daleithau, ac estynnir gwahoddiad drwy golofnau'r papur hwn i ddysgwyr led led America i ddod i Green Mountain i ymuno â'r cwrs. Fe fydd y cwrs ei hun yn un cywasgedig, gan fod yr amser mor fyr, ond gyda phwyslais ar hunan-hyfforddiant fel y gall y dysgwyr gario 'mlaen ar eu pennau eu hun wedi i John ddychwelyd i Gymru.

Fe fydd John yn arwain Noson Lawen ar ddiwedd yr wythnos, ac y mae son hefyd am drefnu Cymanfa Ganu yn ystod cyfnod ei ymweliad. Fe fydd angen doniau Cymraeg

ar gyfer yr achlysuron hyn, felly, os oes rhywrai o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sy'n gantorion, yn adroddwyr, yn delynorion, yn gloeswyr ac ati yn digwydd meddwl am fynd i America am wyliau yn ystod mis Mehefin, cofiwch roi gwybod i John cyn mynd!

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.



4. am gerdd
gaeth....



5. a
cherdd rydd.

TUDALEN Y DYSGWYR

Roedd llawer o hwyf i'w gael ychydig flynyddoedd yn ôl wrth gynhyrchu'r cylchgrawn "Yr Agoriad" yn fisol ar gyfer y dysgwyr. Ond yn anffodus, fel llawer o bethau Cymraeg sy'n dechrau'n dda, nid oedd parhad ac ar ôl cyrraedd safon eithriadol o dda fe ddaeth popeth i ben yn sydyn.

AIL-DDECHRAU?

Roedd Cymdeithas y Dysgwyr, a oedd yn gyfrifol am y cylchgrawn, yn trefnu nosweithiau cymdeithasol fel nosweithiau sgittlau, nosweithiau coffi, dawns i'r dysgwyr, cymanfa ganu, ac ati. Mae'r cyfan wedi dod i ben bellach ac y mae bulch mawr o goll i'r holl weithgareddau hyn. Beth am i rywun fynd ati i atgyfodi'r

ENWOGION CYMRU

2. Esgob a Dau Bistol

Mae rhyw arwyddocâd i bob dyddiad, ac i'r Sais, mae 1588 ac Armada Sbaen yn mynd gyda'i gilydd. Yn anffodus, dyna sy'n dod i feddwl y Cymro hefyd yn aml iawn, a dydy e ddim yn gwybod, neu ddim yn cofio bod rhywbeth arall wedi digwydd ym 1588 — cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg.

William Morgan oedd enw'r dyn a wnaeth y gwaith, ac yn Llanrhaeadr ym Mochnant (rhyw ddeng milltir o Sycharth, ac ar y ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Ddinbych) roedd e'n byw.

Roedd cyfieithu'r Beibl yn waith caled, a does neb yn gwybod faint o amser gymerodd William Morgan cyn gorffen. Ond mae un peth yn siwr: mae cyfieithu'r Beibl wedi bod yn fwy o help i gadw'r iaith yn fyw na dim arall.

Do, fe gafodd e amser caled a phrysur, ond fe gafodd e amser helbulus hefyd, amser mor helbulus fel roedd rhaid iddo fe wisgo dau bistol o dan ei gasog wrth fynd i bregethu i'r eglwys. Dyna mae un hanes yn ddweud amdano, beth bynnag. Pam? Wel, yn ôl y stori, dyma'r rheswm.

Bachgen o deulu tlawd oedd William Morgan, ac fe gafodd help i fynd i'r coleg yng Nghaergrawnt gan John Wyn, uchelwr o Blas Gwydir, yn Llanrwst. Roedd mab John Wyn yn ffrind i William, ac roedden nhw'n gweld llawer o'i gilydd.

Roedd hi'n arferiad yn yr hen amser i fab yn teulu cyfoethog briodi merch teulu cyfoethog arall, a doedd pethau ddim yn wahanol yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Roedd Ifan Meredith yn dirfeddiannwr cefnog, ac roedd e wedi bwriadu i'w fab briodi Elisabeth, merch i deulu cefnog arall yn yr ardal. Ond yn anffodus, fe syrthiodd mab John Wyn o Wydir mewn cariad gyda Elisabeth, ac fe gollodd mab Ifan Meredith ei gyfle a'i ffertiw.

O hyn ymlaen, roedd teulu Lloran Ganol (dyna enw cartref Meredith) yn eflyniol i William, a doedd e ddim yn cael llynydd i weithio yn ei stafell achos bod Ifan Meredith yn talu i ddynion am gadw swm yn y coed o gwmpas y tŷ. Fe wnaeth e fargen gyda'r wraig oedd yn cadw tŷ i William hefyd, a roedd hi'n cael ei thalu am geisio gwneud ei fywyd yn ddiflas.

Ond roedd ganddo fe rai pobl, wrth gwrs, yn ei helpu, ac un ohonyn nhw oedd Edmwnd Prys, ac fe wnaeth e gyfraniad i'r iaith drwy droi rhai o'r Salmu yn emynau.

Yn Maentwrog, yn Sir Feirionnydd, roedd Edmwnd Prys yn byw, a phan fydda i'n teithio yn y car o Faentwrog, dros fynyddoedd y Migneint i'r Bala, ac o'r Bala dros fynyddoedd y Berwyn i Lanrhaeadr, fe fydda i'n meddwl yn aml am daith Edmwnd Prys. Os llwyddodd Syr Francis Drake i gadw'r Sbaenwyr rhag glanio, fe wnaeth William Morgan a'i gyfeillion waith cofiadwy dros Gymru a'r iaith Gymraeg.

MALDWIN JONES

Geirfa a Nodiadau (Vocabulary and Notes)

esgob — bishop
arwyddocâd — significance
cyfieithu — translate
helbulus — troublesome

pregethu — to preach
tirfeddiannwr — landowner
cyfraniad — contribution
cofiadwy — memorable

— peidiwch ag aros i'r Cymry Cymraeg i wneud pethau drostoch chi.

CYRSIAU'R HAF

Ydych chi wedi trefnu i fynd

Cymdeithas yr Iaith yn Llan-grannog ar Fawrth 25ain — Arweinydd, Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina.

EISTEDDFOD CAERDYDD

Mae Pwylgor y Dysgwyr wedi dechrau paratoi at yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym 1978. Fe ddylai fod rhaglen ddiddorol ac amrywiol yno ar gyfer y dysgwyr. Gobeithio bydd llawer iawn o bobl yn mynd ati bryd hynny i ddechrau dysgu Cymraeg. Beth am i chi geisio perswadio rhai o'ch ffrindiau di-Gymraeg i fynd ati?

SIOP SIARAD

Faint ohonoch chi sy'n gwrandao ar y rhaglen "Siop Siarad" (Sul, 4.00p.m., nos Fawrth 6.15p.m.)? Fe glywais i raglen arbennig y Siop i ddathlu Gŵyl Dewi ac roedd hi'n rhaglen ddiddorol iawn. Roedd hi'n ddoniol i glywed Gillian, sydd wedi dysgu'n dda, yn siarad am broblemau'r b— treigladau!

JOHN ALBERT

GEIRFA

parhad — continuation
("nid oedd parhad" — "it didn't last")
eithriadol — exceptional
gweithgareddau — activities
atgyfodi — resurrect
amrywiol — varied
hanesion — stories

NEWYDDION

ar gwrs hir yr haf yma? Dyma rai i chi feddwl amdany'n nhw.

Mis Gorffennaf. Cwrs Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (cwrs pythefnos). Cwrs wythnos yng Ngholeg San Dunawd (Manylion oddi wrth Mr Brian James, Yr Uned Iaith, Trefforest). Cwrs wythnos yng Ngholeg Harlech; Cwrs Coleg y Brifysgol, Bangor (pythefnos).

Mis Awst: Cwrs wythnos newydd yn Nhŷ'r Dyffryn, Sain Nicolas, Caerdydd (manylion oddi wrth y Warden); Ysgol Haf y Barri (wythnos neu bythefnos) — manylion oddi wrth y Swyddog Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogur.

CRIW DA

O siarad am gyrsiau, dyna braf oedd gweld rhai dosbarthiadau cyfan wedi dod ar fy nghwrs yn Llanrannog ar yr 11eg o Fawrth. Roedd tua 16 o Gwrs Cennard Davies yn y Barri a dosbarth Wipau Caerffili bron i gyd yno, a roedden nhw'n siarad yn dda iawn hefyd. Cofiwch am gwrs

Cefnogwch y Gymraeg!

Yn ystod gwyliau'r Nadolig, roeddwn i wedi annog tair dysgwraig gyda phlant yn yr Ysgol Gymraeg a'r Ysgol Feithrin, Caerffili, i fynd gyda fi a'm merch i weld "Madog", y pantomeim Cymraeg. Trefnais gael y seddau yr wythnos o'r blaen i wyth blentyn a phedwar o oedolion am y prynhawn dydd Iau.

Popeth yn iawn yn ôl pob tebyg, ond pan ddaeth y dydd, dyma'r eira mwyaf drwchus rydyn ni wedi ei weld ers blynyddau! Ar ol trafod y sefyllfa drwy'r ffôn, roedden ni'n meddwl cael taci ond pan glywon ni nad oedd y ceir yn gallu symud o gwmpas yng Nghaerffili hyd yn oed, fe benderfynon ni y byddai'n well mynd gyda'r tren.

Erbyn y prynhawn roedd y tywydd wedi gwaethygu, yr eira'n dal i gwmpo'n drwm ac wrth gwrs, roedd y tren hanner awr yn hwyr! Doedd dim cymaint o eira yng Nghaerdydd ond roedd y palmantau'n lithrig iawn, felly roedd cerdded i'r Sherman gyda phlant bach yn

anodd iawn.

O'r diwedd cyraeddon ni yno ac wrth gerdded drwy'r drws fe glywon ni'r geiriau, "Mae Pantomeim Madog wedi cael ei ohirio". Dim ond pump oedd wedi cyrraedd cyn i ni — ble roedd pobl Caerdydd y prynhawn hwnnw? Dyna siom! ar ôl ein holl ymdrechion.

Dim ond unwaith y blwyddyn mae plant yn cael cyfle fel hyn. Rwy'n meddwl ei fod mor bwysig iddynt gweld y Gymraeg yn byw — rhywle heblaw yn yr Ysgol.

Cefnogwch y Gymraeg! — Wel, fe geisio ni beth bynnag!

VAL HOOKWAY,
Caerffili.

NEWYDDION CWM RHYMNI



BYSUS BACH Y CWM

Bu llawer o son am UFO's dros Dyfed a Gwynedd ond, bellach, does dim amheuaeth o gwbl ynghylch natur y cerbydau brown a melyn a welir yn crwydro strydoedd a ffyrdd Cwm Rhymini. Oherwydd yno, ar yr ochr, mewn llythrennau bras mae'r geiriau 'Cyngor Ardal Cwm Rhymini'. Ie'n wir, mae'r Cyngor wedi cychwyn gwir-eddu polisi dwyieithog!

PANTYCELYN YN YR WYL

'Pantycelyn' yw teitl drama a fydd yn cael ei pherfformio gan Gwmni Theatr Cymru ar nos Fawrth, Hydref 25, yng Nghanolfan Gymdeithasol Penyrheol, Caerffili. Y peth trawiadol am y perfformiad yw ei fydd yn rhan o Wyl Gelfyddydol Cwm Rhymini a hwn fydd y tro cyntaf i'r Wyl gynnwys noson Gymraeg. Mae hyn yn dilyn cais a wnaed y llynedd gan Gymdeithas Gymraeg Caerffili ac a dderbyniwyd yn llawen y pryd hwnnw gan y diweddar D.W. Davies, trefnydd yr Wyl. Mae Mr M. Davies, Swyddog Adloniant y Cyngor, yn gobeithio'n fawr y bydd cefnogaeth gref i'r fenter a dichon y bydd yn seilio cynlluniau'r dyfodol ar ei brofiad eleni. Fel mae'r teitl yn awgymu, mae'r ddrama yn olrhain peth o fywyd a gwaith William Williams, Pantycelyn.

WYTHNOS GYMREIG

Yn dilyn ymweliad dirpwyath o fudiadau Cymraeg tref Caerffili â'r archfarchnad, mae rheolwyr Carrefour wedi cytuno i gynnal 'Wythnos Gymreig' i gyd-reddeg â'r Eisteddfod yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf. Deallir hefyd y bwriedir mabwysiadu polisi dwyieithog ar nifer o bosteri

42c Y PEN

Mae 'Cynllun Punt y Pen' yn gonglfaen polisi ariannol yr Urdd a disgwylir i bob aelod fynd yn gyfrifol am gasglu punt o leia at y Gronfa ganol-og. Gyda mis i fynd at ddiwedd y flwyddyn ariannol mae ffigyrau a gyhoeddwyd gan yr Urdd yn dangos fod Gwent (sy'n cynnwys Cwm Rhymini at bwrpas yr Urdd) wedi casglu cyfanswm o £746, sef cyfartaledd o 42c y pen. Er ei fod yn brin o'r nod

mae'n cymharu'n ffafriol iawn â phob sir arall, ag eithrio Dyfed. Daeth un o'r cyfraniadau mwyaf i gronfa Gwent o gynllun Cardiau Casglu Ysgol Gymraeg Bargoed. Roedd y cyfanswm o £194 yn record i'r ysgol. Mae clod arbennig yn ddyledus i Christopher Ashcroft a lwyddodd i gasglu dros £40. Mae'n gobeithio y bydd ymhlith y rhai llwesu sy'n ennill un o wobrau'r Urdd. Llonyfarchiadau iddo ac i'r ysgol.

MUDIAD MEITHRIN

Newyddion da a ddaeth i fro Gelligaer a Phenpedairheol pan ddatgelwyd y bydd Ysgol Feithrin yn agor yng Nghanolfan y pentref ar ôl y Pasg. Bydd yr ysgol ar agor ar brynawn Llun a lau a'r trefnydd lleol yw Mrs Ann Walker, Gelligaer. Dywedodd Eleri Betts, trefnydd sirol y mudiad ei bod yn ffyddiog y byddai'r ysgol yn un lwyddiannus ac y byddai'n llenwi bwlch amlwg yn y rhan hon o'r Cwm.

YSGRIFENYDDES NEWYDD

Oherwydd pwysau gwaith gyda'r Mudiad Meithrin mae Eleri wedi ymddiswyddo fel ysgrifenyddes weithgar cangen Caerffili o Ferched y Wawr. Fe'i dilynir yn y swydd gan Margaret Griffiths, Heol y Barri, Caerffili 867909.

CALENDR MAWRTH/EBRILL YN Y CWM MAWRTH

- 21 Cwis rhwng Merched y Wawr a'r Gymdeithas Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Caerffili am 7.15p.m. Y noson dan ofal Moi Parri.
- 26 Eisteddfod Sir yr Urdd, Ysgol Llysweri, Gwent.
- 28 Y Cylch Diwylliannol — 7.15p.m. yn y Ganolfan Athrawon, Caerffili. 'Hanes y Ddrama' gyda W.J. Jones.

EBRILL

- 4 Cymdeithas Gymraeg Caerffili — 7.15p.m. yn yr Ysgol Gymraeg. Côr Cerdd Dant Lisa Erfyl.
- Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar ddiwedd y noson.

CYNGOR LLYFRAU CYMRAEG

(mewn cydweithrediad â
Chyngor Celfyddydau Cymru a
Chymdeithas Gelfyddydau'r
De-Ddwyrain)



Gŵyl Lyfrau
De-Ddwyrain
Cymru 1977
29 Mawrth /
1 Ebrill

POLITECHNIG CYMRU
PONTYPRIDD

Arddangosfa lyfrau helaeth a gweithgareddau
lu i blant ac oedolion

Manylion a rhaglen oddi wrth eich siop lyfrau leol neu'r
Cyngor Llyfrau Cymraeg, Sgwâr y Frenhines, Aberystwyth.
Tel: 4151.

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENAULT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

Mewn cyfarfod o Swyddogion Bwrdd yr Orsedd a Swyddogion Pwyllgor yr Orsedd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, dewiswyd cludwyr y Flodeued a'r Corn Hirlas ynghyd â'r Macwyiaid a'r Morynion ar gyfer Seremoni'r Cyhoeddi (Gorffennaf 2, 1977) a Seremoniau'r Orsedd yn yr Eisteddfod (Awst 7-12, 1978).

Mrs Sian Thomas, y delynores o Landaf, a ddewiswyd i gludo'r Corn Hirlas. Yr Hirlas oedd yr hen gorn yfed yn llysoedd y Tywysogion, ac yn ôl cwrteisi'r llys, trwy estyn y Corn Hirlas y byddid gynt yn estyn croeso ac arhwydded; wrth gyflwyno'r Corn Hirlas i'r Archdderwydd bydd y wraig a etholwyd i gynrychioli Caerdydd a'r Cylch yn estyn croeso aelwydydd y ddinas i'r Orsedd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd dau facwy, Dyfrig Jones ac Aled Hopkins, yn cyd-gerdded ychydig gamau o'r tu ôl iddi.



EIRLYS BRITTEN

Dewiswyd Eirlys Britten — sy'n actio rhan Beth Leyshon, Caffi Cwmeri yn nghyfes 'Pobl y Cwm', BBC Cymru — i gludo'r Flodeued yn y Deremoniau. Bydd hi yn cyflwyno ysgub fechan o flodau'r Maes i'r Archdderwydd. Bydd dwy forwynig, Gaenor Evans a Bethan Sian Lewis yn gweini arni, ac fe ddawnsir y Ddawns Flodau gan barti o enethod o ysgolion cynradd Caerdydd a'r Cylch. Bydd y dawnswyr yn ychwanegu eu pwysfau o flodau i'r Flodeued, yn arwydd o'u dymuniad hwythau i gyfrannu eu talent i'w Gŵyl Genedlaethol Mrs Janet Phillips fydd yn eu hyfforddi.

Bydd holl ganiadaeth yr Orsedd i gyfeiliant telyn, a thelynores swyddogol Seremoni'r Cyhoeddi fydd Mrs Glenys Evans o Lanishen, Caerdydd.

CRAP AR YR IAITH

Mae gan y BBC gynlluniau i ddarlledu drwy'r wythnos yn ddi-dor o 'Steddfod Genedlaethol Caerdydd. Golygai hyn gryn ychwanegiad i oriau darlledu Cymraeg, wrth gwrs. I sicrhau y bydd digon o amser ar gael, sefydlwyd Cyngor Rhaglenni i Arbed Anser Prin, neu C.Rh.A.P. fel y cyfeirir ato yn y Clwb. Swyddogaeth y Cyngor yw arbed hynny o amser y bydd ei angen er cyflawni'r fenter aruthrol yn ystod y 'Steddfod.

Dywedodd Dewi Sant, "Gwnewch y pethau bychain", ac aeth y Cyngor ati rhag blaen i docio yma ac acw, munud yma, eiliad neu ddau fan acw. I ddechrau, penderfynwyd hepgor y gair "Aberdaugleddau" a chyfeirio at y dref anffodus fel "Milffwrdd" ar yr holl raglenni. Yn ôl amcangyfrif y Cyngor, pe defnyddid Milffwrdd yn lle Aberdaugleddau 14,463 o weithiau, yna fe allai'r Gorfforaeth arbed hanner awr o amser prin. Gwrandewch am ddatblygiadau pellach yn y dyfodol — Brecyn yn lle Aberhonddu, neu Mowld yn lle Yr Wyddgrug efallai.

Gan fod y gorchymyn wedi mynd at drigolion rhaglenni chwareuon, gresyn na fuasant hwythau hefyd yn cyfrannu 'chydig o eiliadau gwerthfawr drwy adrodd canlyniadau gemau rygbi mewn dull synhwyrol yn lle baglu dros "unarddeg ar hugain" neu "pedwar ar byntheig a deugain" ac ati.

HERR I GYMRU

Collwyd cyfle gwych i arbed munudau lawer rai dyddiau yn ôl pan glywyd Glyn Almaen von Roberts, swyddog o'r Bwrdd Croeso, yn malu awyr am syniad gwefreiddiol i ddenu ymwelwyr i Gymru. Bwrriedir gwahodd cyn-filwyr a fu'n aros yng Nghymru yn ystod y rhyfel yn ôl i'r hen wlad am wyliau — fel rhan o ddathliad y Jiwibili!

Os clywsoch chi am syniadau eraill cyffelyb i'r uchod (dwl, hynny yw), fe fydd y golofn hon yn agored i chi yrru ati'r holl syniadau Jiwibileidig, dathliadau, anrhegion ac ati i byddwch yn rhwym o ddod ar eu traws yn ystod y misoedd nesaf. Felly, peidiwch ag oedi.

TI GYNT A GERAIS (I)

Nid Herr Roberts yw'r unig un â syniadau od sy'n gweithio i'r Bwrdd. Rhoddodd Gwyn Angell Jones (gynt o Gaerdydd, a gŵr yr oedd gen i ufflon o grysh arno yn y coleg!) ei droed ynddi at y penglin wrth gyhoeddi llawlyfr ar gyfer

cōiōfn sbectol * SIAN

ymwelwyr i Ganolbarth Cymru. Yn ôl adroddiad yn y *Daily Post*, gadawyd Sir Fôn oddi ar fap o Gymru (yr enw, hynny yw). Ffurfiaw Seisnig yn unig a ddefnyddir ar gyfer enwau trefi hefyd.

"This is a colossal clanger," meddai Mr Harry Fricker yn y *Post*. Dywedai y gallai ddeall y peth ped argraffwyd y llyfryn yn yr Alban neu yn Hong Kong... ond nid gan Fwrdd Croeso Cymru. Mae esboniad Gwyn Angell, mai dilyn polisi'r awdurdodau lleol ar ddwyieithrwydd a wneir, yn gwbl annigonol ac annerbyniol.

TI GYNT A GERAIS (II)

Daeth dathliad Gŵyl Dewi o gyfeiriad annisgwyl y noson o'r blaen. Penderfynodd Kenneth Kendal, ar ei raglen "These you have loved" gyflwyno caneuon a chantorion o Gymru. Cafwyd un gân Gymraeg, a chaneuon mewn tair iaith arall, ar wahan i'r Saesneg — ar gyfer y Cymry ar Wasgar, mae'n debyg.

Gan fy mod i'n son am ymwelwyr, a ninnau newydd ddathlu Gŵyl Dewi, dyma arwydd i wneud i Dewi druan droi yn ei fedd

RAGOROL

Brynoch chi gylchgrawn Rag Caerdydd eleni? Mewn un hysbyseb, gofynai Cyngor Celfyddydau Cymru, "Faint o'r gloch ydy hi yng Nghymru?" Ar ôl clywed am y gostyngiad yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg, canlyniad y bleidlais ar y Mesur Datganoli a'r miloedd o bunnau a werir gan y Cyngor ar lyfrau nad oes neb yn eu darllen, buaswn yn dweud ei bod hi'n unfed awr ar ddeg arnom (neu'n awr undeg un, i arbed amser.) Sut bynnag, roedd hi'n dda iawn gweld hysbyseb unaiht Gymraeg gan y Cyngor, yr unig un yn y cylchgrawn.

Dyma un jôc o'r cylchgrawn. Roedd dau fyfyrwr yn rhannu fflat. Un dydd, daeth un ohonyn nhw adre i ddarganfod hanner dwsin oawel o chwisi, dwy gason o gwrw a thorth yn y gegin.

"Da ni'n cael parti?" gofynodd i'w ffrind.

"Na, na," atebodd hwnnw.

"Yna, beth yw'r holl fara 'ma te?"



YR URDD — A MWY!

URDD and Gobaith Cymru, who arrange holidays for thousands of youngsters each year at their camps at Glanllyn and Llangarmon plan to break new ground this summer.

SETLO'R MATER

I orffen, rwyf wedi cael gwybodaeth fod gan HTV gynlluniau i ddechrau rhaglen newydd o'r enw Wsettee Bethma, ar ôl iddy'n nhw gyflwyno'r gadair i 'Steddfod Caerdydd.

ei ddiwrnod mawr.....

Dros gyfnod o bymtheg mlynedd bwm yn ymwelydd rheolaidd â chartref Grace Williams, a fu farw yn y Barri ar y degfed o fis Chwefror. Trist yw ei cholli, yn arbennig wedi'r diddordeb mawr a gymerwyd yn ei gweithiau y llynedd pan drefnwyd perfformiadau a darllediadau i ddathlu ei phenblwydd yn ddeg a thrigain.

Cofiaf yn dda ddiwrnod a dreuliais yn ei chwmmi yr haf diwethaf, ychydig ddyddiau cyn ei hymweliad cyntaf ag Ysbyty Llandochoy i gael triniaeth lawfeddygol. Cyfaddefodd nad oedd ganddi unrhyw obaith y byddai'r driniaeth yn llwyddiannus. Yr oedd yn amser symud ymlaen, rheddi, er mwyn rhoi cyfle i gyfansoddwyr ieuaic. Yr oedd wedi gwneud ei hewyllys, wedi cwblhau'r trefniadau ynglŷn â lleoli ei gweithiau cerddorol, ac ynglŷn â'r recordiad o'i chyfansoddiadau oedd yn fuan i'w wneud.

Yr oedd hyn i gyd yn nodweddiadol ohoni. Yn ystod yr holl gydweithio a fu rhyngom, roedd mân fanylion y trefniadau ar gyfer cyfansoddiadau newydd, recordiau, cyngherddau a darllediadau wedi eu nodi yn ddiethriad ganddi mewn llythrau hirion yn ei hysgrifen ei hun. Nid oedd unrhyw wastraff ar dudalen ac yn aml, ysgrifennai nodyn ychwanegol tu allan i'r amlen. Dyna oedd yr esbioniad am y rhwyddineb a fodolai bob amser wrth gyflwyno ei gweithiau.

Ers iddi ymddeol chwe blynedd yn ôl gwrthododd Grace Williams y mwyafrif

Marw Cerddor o Fri



GRACE WILLIAMS

llun Ieuan Davies (Radio Times)

o'r comisiynau a gynigiwyd iddi. "Cynigiwch nhw i'r to ieuanc," meddai. "Cefais fy nghyfle eisoes. Yr wyf yn awyddus yn awr i dreulio fy amser yn diwygio a gwella fy ngweithiau." Dyna nodwedd arall o'i chymeriad. Yr oedd yn hunan-feirniadol i'r eithaf. Llosgodd nifer dda o gyfansoddiadau o bryd i'w gilydd ac ychydig o weithiau, mewn gwirionedd, a sdawyd ar ôl ganddi.

Roedd Grace Williams yn dod o gartref cerddorol. Yr oedd ei thad yn athro cerdd ac yn arweinydd corawl yn y Barri. Wedi graddio yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd, astudiodd ymheillach yn y Coleg Brenhinol yn Llundain o dan Ralph Vaughan Williams. Yr oedd yn y Coleg bryd hynny nifer o ferched yn astudio

cyfansoddi — Elisabeth Lutyens, Elizabeth Maconchy, Imogen Holst ac eraill — a bu llawer ohonynt yn ffrindiau agos i Grace Williams byth er hynny. Wedi'r Coleg Brenhinol aeth i Vienna i astudio gyda Egon Wellesz. Bu'n dysgu yn Llundain am gyfnod ac yna dychwelodd i'w chartref yn y Barri a chyfranodd yn helaeth i weithgareddau cerddorol yng Nghymru.

Mae llawer o'i chyfansoddiadau ymhlith y goreuon a hanodd o Gymru erioed: er enghraifft, y Symffoni, Penillion ar gyfer Cerddorfa, Ffantasia ar alawon Cymreig, Consierto i'r Trwmped, y Missa Cambrensis a'r Sea Sketches ar gyfer cerddorfa Siambr. Mae nifer dda o'i gweithiau wedi eu cyhoeddi a'u recordio a gwelir fod elfennau arddull gerddorol wir Gymreig yn amlwg

ynddynt. Y mae iddi le pwysig yn hanes cerddoriaeth Cymru. Yn ddiweddar, comisiynwyd Malcolm Boyd (o Goleg y Brifysgol, Caerdydd) gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ysgrifennu cyfrol ar waith a bywyd Grace Williams; fe'i cyhoeddir gan Wasg y Brifysgol.

Nid oedd Grace Williams yn hoff o fywyd cyhoeddus nac o gyhoeddusrwydd yn gyffredinol. Serch hynny, ar ei haelwyd ei hun siaradai am oriau yn rhwydd ac yn ddiddorol am ei phrofiadau cerddorol. Gwrthododd bensiwn cyhoeddus (Civil List) a phob anrhydedd arall a gynigiwyd iddi. Ni wn i am neb nad oedd yn ei pharchu'n eithriadol, fel person ac fel cerddor.

ROY BOHANA

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Ysgoloriaethau i Awduron

Cymraeg 1977/78

Gwahoddir ceisiadau gan awduron sy'n dymuno cael eu rhyddhau o'u swyddi neu o'u hamgylchiadau arferol am gyfnodau hyd at flwyddyn er mwyn ymroi'n amser-llawn i lenyddia. Ni ellir ond ystyried ceisiadau gan awduron sydd wedi cyhoeddi o leiaf un llyfr a hwnnw, o ddewis, yn yr un categori llenyddol a'r llyfr y dymunir ysgoloriaeth ar ei gyfer. Dyfernir nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau hyd at £5,000 yr un yn ystod Mai 1977 a dylid anfon ceisiadau cyn 18 Mawrth 1977.

Gellir cael manylion ychwanegol o'r Adran Lenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF1 3NX. Ffôn Caerdydd 394711.

CALENDR MAWRTH-EBRILL

MAWRTH

- 16 Y Gymdeithas Lenyddol TRIBANNAU MORGANNWG D. Myrddin Lloyd. ORIEL 53 Heol Siarl 7.30p.m.
- 22 Plaid Cymru NOSON GROESO i Leslie Davies a Meinir Lloyd Williams, aelodau newydd staff y Brif Swyddfa, yn Ffestri Eglwys Dewi Sant 7.30p.m.
- 23 Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys T. ROWLAND HUGHES Darlith gan Mrs Anthony Davies 7.30p.m.
- 26 Cylch Meithrin Ystum Taf FFAIR Neuadd Eglwys All Saints 2.30p.m.
Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Abertawe TEDI BÉR gan Urien William. Coleg Cyncoed 7.30p.m. Yr elw at Ganolfan yr Urd.
- 28 Clwb Tŷ'r Cymry SEIAT ARDDIO 7.30p.m.
- 29 Y Cyngor Llyfrau Cymraeg GŴYL LYFRAU DE-DDWYRAIN hyd CYMRU Politechnig Cymru, Pontypridd.

EBRILL

- 1 Ysgol Feithrin y Waun a'r Cylch CAWL A CHÂN Noson ddifyr o adloniant a bwyd Cymreig. Ty Maeth, Tocynnau: Mrs Fielding, 751660.
- 2 Plaid Cymru FFAIR SBORION Neuadd St Saviour, Sblot, 10.30a.m.
- 5 Merched y Wawr TAITH A CHINIO
- 13-15 Amgueddfa Werin Cymru YSGOL BASG Thema: Hanes Llafar. Tŷ Dyffryn, Sain Nicolas.

Os mai eich bwriad wrth ddarllen y golofn hon yw cael rhyw ddau funud o ddifyrwrch diddrwg didda, ofnaf mai eich siomi a gewch. Gwn ei bod yn adeg Gŵyl Ddewi ac mai pethau clên, clodforus a gobeithiol a ddywedir yr adeg yma o'r flwyddyn ond ofnaf na theimlaf awydd o gwbl i son am y "pethau bychain" na hyd yn oed i son am "gynnau kannwyll fechan yn y tywyllwch". Go anobeithiol y gwelaf i bethau.

Ofnaf i'r ffigyrau diweddar a gyhoeddwyd ar y nifer o blant sy'n siarad Cymraeg fy llorio'n lan. Er bod lle i greu bod 'na fymryn o ennill tir mewn rhannau o Forgannwg, dirywio'n gyflym y mae pethau yn y Gymru Gymraeg. Anodd peidio â digalonni ym myd Cylchoedd Meithrin De Morgannwg. Mae prinder Cymry Cymraeg ar bob tu a'n cylchoedd yn brwydro'n gyson yn erbyn anawsterau iethyddol ac ariannol a phrinder athrawon.

Yn aml yn ddiweddar caf fy hun yn synfyfrio ac yn meddwl beth ddigwyddodd i'r hogan bach honno a gerddai ar draws Cob Pwllheli bob dydd yn breuddwydio breuddwydion ac yn llawn delfrydau. Amdanaf fy hun y soniaf, wrth gwrs. Anhygoel yw sylweddoli'r newid sydd wedi bod yn y chwarter canrif ddwytha. Nid yn unig y mae safon y Gymraeg a siaredir wedi dirywio ond y mae'r lleihad yn ein nifer wedi bod yn araf a distaw ond yn gwbl gyson — hyd yn oed yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Ymha ffordd y gallwn ddathlu Gŵyl Ddewi yn wyneb y ffeithiau yma? Wn i ddim.

Ysgrifennais y paragraffau uchod ryw fis yn ôl yn y gobaith mai'r felan dros dro oedd arna'i ac mai i'r faged sbwriel y cai fynd. Ond tybiaf mai teg yw dangos pob agwedd o hynt a helynt y Mudiad, a'm hargraffiadau gobeithiol ac anobeithiol innau.

Prin gyffwrdd â'r broblem
Rhaidd cyfaddef y buaswn wedi anobeithio'n llwyr oni bai bod pobol fel Gwilym Roberts, Owen John Thomas ac athrawon brwd y Cylchoedd yn codi cywilydd arna'i. Ond hawdd digalonni o ystyried, gyda holl ymdrechion y Mudiad yn Ne Morgannwg, mai tua dau gant a hanner o blant sy'n mynych

Y MUDIAD MEITHRIN

ein cylchoedd a phrin hanner cant o'r rheiny o gartrefi lle mae un neu ddau o'r rhieni'n siarad Cymraeg. Mewn sir mor boblog â hon fe welwn mai prin gyffwrdd â'r broblem a wnawn.

Digwyddiadau'r Mis
Wedi i mi gael dweud fy nghwyn, gwell imi son am y gweithgarwch sydd yn y Sir. Am 2.30p.m. ddydd Sadwrn, Mawrth 26ain y mae gan Gylch Meithrin Ystum Taf (Llandaf North i'r anghyfarwydd) Ffair yn Neuadd y Cylch, sef Ffestri All Saints Church, Gabalfa

Rd., gyferbyn a Glantaf. Buaswn yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth gan fod y Cylch yma yn enghraifft o Gylch efo 'chydig iawn iawn o'r rhieni yn siarad Cymraeg. Byddai'n galonidid i'r Cylch i gael cefnogaeth Cymry Cymraeg Caerdydd.

Cylchoedd Newydd
Y mae dau Gylch Mam a'i Phlentyn ar fin agor — sef yn y Bontfaen a Radur. Rhwydd hnt iddynt! Y cyhoeddiad pwysicaf yw bod Cylch Meithrin newydd i'w agor yn y Tyllgoed — yn Neuadd y

Sgowtiau oddi ar Fairwater Rd. Y mae deg o blant yn barod i gychwyn yno ar ôl y Pasg. Os oes gan rywun offer neu deganau i'w sbario byddai Cylch y Tyllgoed yn falch iawn o'u cael.

Apel am Athrawes
Y broblem fawr wrth gwrs yw nad oes gennym hyd yma athrawes. A ga'i' apelio'n daer am athrawes drwyddedig a hoffai dderbyn yr her o sefydlu Cylch y Tyllgoed. Arfaethir agor am bum bore'r wythnos a bydd cydnabyddiaeth, wrth gwrs, i'r athrawes. Rwy'n mawr obeithio y bydd rhywun yn dod i'r adwy.

Y Mabinogi

Cymwynas neilltuol â phobl Cymru fu cyhoeddi'r record ddiweddaraf i ymddangos ar label ORIEL, sef detholiad o Bedair Cainc y Mabinogi. Bu cryn dipyn o feirniadu ar Gyngor y Celfyddydau ar hyd y blynyddoedd am na lwyddodd i sicrhau cyhoeddi fersiwn mewn Cymraeg diweddar o'r Mabinogi, "un o drysorau pennaf ein llenyddiaeth" i ddyfynu'r broliant ar glawr y record. Yn awr, y mae cyhoeddi'r record hon yn gam derbyniol yn y cyfeiriad iawn, sef dod â'r chwedlau bendigedig hyn yn ôl o fewn cyrraedd trwch y boblogaeth drwy eu gwneud yn ddealladwy i Gymry Cymraeg cyffredin yr oes hon.

I'r perwyl hwnnw, diweddarwyd peth ar yr eirfa a'r gystrawen, "ond gan geisio cadw hynny a ellid o'r blas a gâi cynulleidfa wrth wrando ar ddarllen y gwaith naw can mlynedd yn ôl." Y mae darlenniad eglur, pwylllog J.O. Roberts yn cyfleu'n berffaith yr urddas a'r naws arbennig a berthyn i'r chwedlau hyn, tra bod ei ddawn fel actor yn ei gwneud hi'n bosibl i'r gwrandawr ail-fyw'r straeon hyn gydag ef, mor ffres a mor wreiddiol â phan roddwyd ffurf arnynt gyntaf erioed. Ac ni cheiswyd gwneud hwn yn gyflwyniad drammatig yn yr ystyr o ddefnyddio effeithiau sain, cerddoriaeth neu nifer o leisiau gwahanol: un llais dymunol sy'n creu'r cwbl oll.

Detholwyd y darnau gan Bedwyr Lewis Jones, a'r hanesion a adroddir yw *Cipio Pryderi a'i Adfer*; *Ing Branwen*; *Y Llygod yn yr Yd*; a *Stori Blodeuwedd*. Cyhoeddwyd fersiwn Saesneg o'r record at yr un pryd, o dan y teitl "The Mabinogion", a'r darlennydd ar y record honno yw Gwyn Jones.

"Y Mabinogi — detholion o'r Pedair Cainc" Darlennydd: J.O. Roberts, Cyngor Celfyddydau Cymru/Recordiau Oriol £2.75.

Darlith Dan Lyn

Yn dilyn llwyddiant darlith Mair Robins i athrawon ein cylchoedd fe ddaeth Dan Lyn James atom i roi darlith ar ddysgu Cymraeg i blant bach. Fe ddaeth ato un pnaawn a'n syfrdanu ni gan ei ynni a'i frwdfrydedd. Mae'n amlwg mai'r ffordd i lwyddo mewn cylch o rai di-Gymraeg yw mynnu gweiddi yn Gymraeg drwy'r amser gan fodloni ar sibwrdd yn Saesneg pan fo angen!

SHÂN EMLYN

Oriel

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

Recordiau newydd ar label ORIEL

R.S. Thomas yn darllen ei Farddoniaeth £2.75
Y Mabinogi, darlennydd J.O. Roberts £2.75
The Mabinogion, darlennydd Gwyn Jones £2.75

Yma hefyd y medrwch gael

Barn, Y Cymro, Y Faner, casgliad cynhwysfawr o gardiau cyfarch.

Mawrth 22ain

Rhisart Arwel. Gitarydd clasurol 1.00-2.00p.m.

Croeso i bawb

Gwreichion

"Dim lot o sbarc fanna, ta beth!" oedd yr hen jôc flinedig a ail-adroddwyd ddegau o weithiau yn ystod y sgwrsio yn yr egwyl ac ar ddiwedd y noson ddi-lwyrch hon. Yr achlysur oedd cyflwyniad Cwmni Theatr Cymru o ddrama newydd Eigr Lewis Roberts, *Gwreichion*, yn y Sherman ddiwedd mis Chwefror. Rhaid cyfaddef mai'r unig wreichion a welwyd yn yr Arena y noson honno oedd y rheini a dasgai o sodlau pobl wrth iddyn nhw ei heglu hi am y bar yn yr egwyl, gyda mawr ollyngdod.

Y mae'n hawdd gwanhau wrth fynd ati i ysgrifennu adolygiad rai dyddiau wedi'r digwyddiad, ac anghofio gwres ymateb dyn ar y pryd; dechrau gwneud esgusodion, gan anghofio cynddrwg oedd pethau go iawn, yn yr ymdrech i beidio â brifo neb na niweidio cyflwr bregus theatr Gymraeg gyfoes. Ond weithiau, mae gair yn ei lle yn werthfawr os gall atal trychinebau mwy yn y dyfodol, a hwyrach mai dyma'r lle i ddweud fod y ffaith fod person yn awdur straeon byrion sydd gyda'r disgleiriad a gynhyrchwyd mewn llenyddiaeth Gymraeg gyfoes, ac yn nofelydd celfydd, yn ddim gwarant yn y byd dros ddis-gwyl i'r person hwnnw fod yn ddramodydd llwyddiannus hefyd. Fe awn ymhellach na hynny, a dweud ei bod hi'n ddyletswydd ar y rheiny sy'n hyddysg yng nghreff y theatr, ac sydd â gofal am safonau yn y theatr Gymraeg i sylweddoli a chydabod y ffaith honno hefyd.

Tua'r unig beth pendant y gellir ei ddweud am Gwreichion yw nad drama yw hi ond mewn enw: beth a geir yn lle hynny yw cyfres o ddeialogau gor-amlwg sy'n methu ag argyhoeddi neb. Y mae'r awdur yn llawer rhy hoff o roi talpau o areithiau esboniadol i mewn i rediad y ddrama er egluro'r hyn a ddylai fod yn ymhyg ynddi yn y lle cyntaf, o'i hadeiladu'n well.

Os mai archwilio rôle y ferch mewn cymdeithas gyfoes yng Nghymru oedd y

bwriad, yna dyw'r darn hwn ddim ynddi yn y cyfeiriad hwnnw chwaith. Ymddengys fod yma gamddealltwriaeth neu anwybodaeth lwyf o fywyd yn y Gymru sydd ohoni. "Cop-out" yw'r unig ffordd o ddisgrifio'r peth: ceisir ein darbwyllo fod yma ymgais i wynebu "problem" y par ifanc sy'n "byw mewn pechod" — ac yna eir ati i ddarlunio sefyllfa mor gonfensiynol glyd ag sy'n bosibl, gyda'r arwres (Dwynwen Berry) yn ymgorfforiad o'r wraig briod draddodiadol, heb naill ai'r ysbryd na'r awydd i ateb nôl drosti ei hun, yn gyfangwbl o dan fawd ei chymar bywyd, yn gytun i eistedd gartre heb ddim byd gwell i'w wneud na rhoi sliperi a phib Geraint (Grey Evans) yn barod ar ei gyfer gyda'r nos. Dyw'r ffaith fod rhesymau Geraint ei hun dros beidio â phriodi yn gwbl ddiargyhoeddiad hefyd yn gwneud dim byd i wneud y *scenario* hwn yn fwy credadwy. Mae'r cyfan yn seicolegol ffals.

Roedd cymeriad Anna yn un mor siomedig — yn wir, yn fwy siomedig mewn ffordd gan fod Iola Gregory wedi llwyddo i anadlu cryn dipyn o fywyd ac argyhoeddiad i mewn i gymeriad y ferch fodern, ryddfreniedig sy'n ceisio ymddangos yn galed a dihidio, rhag cael ei brifo fyth eto. Mwy poenus byth felly oedd y "cop-out" terfynol a orfodwyd ar y cymeriad hwn gan yr awdur yng ngolygfeydd ola'r ddrama, pan geir Anna yn ymollwng i ymddwyn fel arwres daagreul stori-gyfes

Woman's Own am ryw reswm y tu hwnt i bob amgyffred.

Mae'r neges yn glir: y cydwybod Piwritanaidd Cymraeg sy'n ennill bob tro, a chyflog byw mewn pechod yw damweiniau car a cholli babanod. Y mae'r diweddglu melodramatig yn awgrymu arlliw o banic ym meddwl yr awdur wrth iddi hi sylweddoli fod yn rhaid dirwyn yr epig hon i ben rhyw fodd — a'r ffordd orau o osgoi gorfod wynebu'r ymhygiadau sy'n codi o'r thema hon yn onest yw defnyddio tactegau sioc, i geisio parlysu ymateb y gynulleidfa fel na bont yn myfyrio'n ormodol ar yr hyn sydd wedi cael ei ddweud.

Dyw'r ddrama byth yn codi uwchlaw'r dau-ddimensiwynnyddol, tynged anochel drama naturalistaidd sydd wedi ei hysgrifennu mewn arddull grochareithiol, rethregol bron. Yn anffodus, ni chododd yr actorion uwchlaw safon y sgript chwaith, ond hwyarch bod hynny'n disgwyl gormod ganddynt, o ystyried fod y cymeriadau o dan reolaeth mor llawdrom gan yr awdur nes ymddangos ar brydiau fel pypedau yn symud yn brennaidd drwy eu campiau rhagordeinedig. Trueni o'r mwyaif oedd gweld actor mor ddawnus â Dyfan Roberts yn gorfod ymgodymu â rhan am' osib Paul, y gweinidog ifanc. Ni allai cynhyrchiad y cyfarwyddwr ifanc, addawol Gruffudd Jones wneud llawer i achub y sefyllfa, ac ni ellir ond gobeithio y caiff ef ddeunydd gwell i weithio gydag ef yn y dyfodol rhag colli ei ddoniau ef yn gyfangwbl i theatr yn yr iaith Gymraeg.

Ar ôl dweud hyn oll, y gofid mwyaif a erys yw'r ffaith mae ein Cwmni Cenedlaethol ni oedd yn suddo yng nghors y ffars hon, ac ni all dyn lai na theimlo fod yna fai dybryd ar bolisi artistig Cwmni Theatr Cymru pan ellir danfon drama o'r safon hon allan ar daith drwy Gymru yn y lle cyntaf.

SIÂN EDWARDS

Tŷ AR WERTH

Tŷ modern hwylus ym Llanedeyrn (Glenwood). Ynddo ceir Cegin/Ystafell Fwya gyda amryw o gypyrddau, Lolfa helaeth (17' x 15') Mynedfa/Grisiau gyda cypyrddau, Tair ystafell wely gyda cwpwrdd dillad ym mhob un, Ystafell ymolchi gyda cwpwrdd twymo dillad. Dwy ardd. Modurdŷ. Pris: Y cynnig agosaf i £11,500. Am fwy o fanylion ffonier Caerdydd 759002.

HIWMOR YR HEN GYMRY

Llyfr difyr iawn a ddaeth i law yn ddiweddar, sef "Hiwmor y Cymry: Hwyl o'r Bedwaredd-Ganrif-ar-Bymtheg". A phwy fase'n credu fod y fath ddiddanwch i'w gael yn y ganrif sychlyd honno? Ie, casgliad o jôcs yw'r gyfrol, wedi eu casglu o gylchgronau a gyhoeddiad yng Nghymru rhyw ganrif yn ôl. Mae'r golygyddion (dienw) wedi cadw at yr orgraff wreiddiol hefyd, sy'n ychwanegu at y doniolwch.

Mae'r jôcs wedi eu rhannu'n bymtheg adran, gan gynnwys un ar Hiwmor y Gwyddel (sy'n profi hir-hoedledd y jôc Gwyddelig) — a dyw pethau ddim wedi newid gymaint â hynny ym mherthynas cenedloedd Ynysoedd Prydain a'i gilydd:

'Gofynodd Ysgotiad i Wyddel paham yr oeddent yn bathu ffyrllingau yn Lloegr? ac ateb parod y Gwyddel oedd, "I roddi cyfleustra i Ysgotiaid i gyfranau at sefydliadau daionus." (tud. 18).

Yn rhyfeddol ddiagon, mae 'na rai periau i'w cael yn yr adran ar Grefydd, o bobman Cymerwch hon: Ar ôl i Offeriad plwyf briodi cwpl o'r bobl a elwir Quakers, gofynai i'r gŵr am y gwobr arferol o bum swllt am weinyddu y gwasaeth, gofynai y Quaker a fedrai efe brofi cyfreithlondeb ei wob o'r Ysgrhythyr. "O gallaf," ebai yr Offeriad, "y mae Soloman yn ei Ddiarebion yn dywedyd fod 'gwraig — yn Goron i'w gŵr'".

Mae'r llyfr, a gyhoeddir gan Gyhoeddiadau Mei, Y Groeslon, wedi eu ddylunio'n ddiadad o'r chwaethus dros ben, ac y mae'n cynnwys nifer o hen luniau a chartwnau difyr, rhai ohonynt wedi eu hel o seleri Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Mae'r argraffu, gan Wasg Deulyn, Penygroes, yn raenus iawn hefyd. Cyfrol braf, yn hwyl i'w darllen ac yn fargen am ddim ond 50c.

Oddi wrth yr un wasg, syniad gwreiddiol arall, sef Croesair Cymraeg Anferth sy'n ddigon o faint (mae'n cyrraedd i fyny at 234 Ar Draws, a 207 I Lawr!) i gadw'r poswr mwyaif selog yn brysur am oriau. Cyst y Croesair (sydd â'r atebion ar ei gefn) 25c.

STIWARDIAID I'R STEDDFOD

Fe fydd eisiau cymaint â 150 o stiwardiaid ar gyfer pob diwrnod o Eisteddfod yr Urdd yn y Barri (Mehefin 7-11 1977). Gobeithir y bydd y mwyafrif yn Gymry Cymraeg ond fe fydd hyn yn anodd gan fod cyn lleied o Gymry Cymraeg yn byw yn y Fro. Apeliwn felly at ddarllenwyr "Y Dinesydd" i'n helpu drwy gynnig eu gwasanaeth fel stiwardiaid.

Caiff pob stiward fynediad i'r maes yn rhad ac am ddim a gellir bod yn stiward am fore yn unig neu bryn-hawn yn unig.

Cysylltwch ar unwaith os gwelwch yn dda gydag Ysgrifennydd y Pwyllgor Stiwardio, Alun Daniel, 4 Erw'r Delyn Close, Sully Road, Penarth. Ffôn: Penarth 707089 (cartref) neu Caerdydd 372354 (swyddfa).

“Canmolwn yn awr...”

Teyrnged i John Gwilym Jones a draddodwyd o'r llwyfan gan Emyr Humphreys yn ystod cyfarfod teyrnged y dramodydd yn y Sherman ym mis Chwefror

Annwyl Gyfeillion,

Yr ydym ni, y Cymry Cymraeg, yn cael ein cyhuddo weithiau o or-ganmol ein hawduron. “Cysuro ein hunain,” medda “nhw”, “trwy weld y pysgod yn fawr mewn pwll mor fach. Cysuro ein hunain gorau gallwn ni yn wyneb y penyd beunyddiol o berthyn i ddiwylliant bach cyfyng, eiradd, gor-ddibynol ar olud afradlon dihybydd yr iaith Saesneg. Onid truenus,” medda “nhw” — ac amryw byd ohonyn “nhw” yn ffyni ar fraser systemau nawdd Cymreig — “ond truenus yw i gorach fyw o dan draed cawr?” Wel, heno, y mae gennym hawl i lawenhau ychydig. Y mae'n dda iawn gennyf ddweud nad oes gan Loegr fawr ddramodydd gwell, os cystal, â John Gwilym Jones, wrth ei waith heddiw. A dyna un esgus o leiaf dros ganu clychau clôd yn y modd mwyaf ymfrostgar bosibl. Peidied neb â meiddio son am *pathetic little literature* tra bo gennym gewri tebyg i John Gwilym Jones yn ffyni yn ein msg.

Yr wyf yn falch iawn o achub y cyfle unwaith eto i fynegi fy edmygedd o'i ddawn feistrolgar a'i weledigaeth unigryw a'i grefft gywrain. Fel cadfridog llwyddiannus hen oes yr ymerodraethau y mae hwn wedi ennill i ni dro ar ôl tro, ddarnau o gyfandiroedd newydd.

Dyma'n trwydded i ganu clychau buddugoliaeth! Fel cenedl, fel Cymry Gymraeg, yr ydym yn cael ein hamddifadu o lawer o freintiau byw yn rhydd yn y byd sydd ohoni. Ond diolch i'r drefn, all yr un awdurdod daearol ein rhwystro rhag mwynhau cynnyrch athrylith naturiol y cadfridog hwn. *Cadfridog* dywedaf eto: waeth pa mor addfwyn ac annwyl ein harwr yn ei benwynni, i ennill y dydd rhaid iddo ymosod yn ffyrnig o galed bob tro, canys, yn y byd llenyddol megis ym mrwydr yr iaith rhaid ymosod er mwyn amddiffyn. Nid yw'n rhodres o gwbl i sôn am gadfridog nac am arloesi cyfandiroedd ac ysgrifennu dramau Cymraeg yn yr un gwynt: na sôn am ddewrder chwaith. Ar yr union adeg pan mae gafael yr iaith ar fywyd beunyddiol y genedl yn nychu ac yn gwario anturiodd hwn ymlaen i feddiannu tir newydd. Dyna ei hanes o ar hyd ei oes lenyddol. Nid oes yr un o'i ddramau nad yw yn gyrch

beiddgar ar dir newydd: nad yw'n creu bydoedd o fyw a siarad fydd yn gyfaneddau cysurus ac ysblennydd i'r iaith Gymraeg am genedlaethau i ddyfod.

Gwyddom fel Cymry cystal â neb am bwysigrwydd cymdeithasol “Y Dyn Geiriau” gall hwn fod yn wylwr ar y tŵr, yn bencerdd sy'n molli Duw a'r tywysog, yn ddi-ddan-ydd teuluol, yn bērganiedydd, yn gyfarwydd, yn llenor a chysurwr y llwyth ac yn y blaen. Ond efallai mai prifswydd y Dyn Geiriau erbyn heddiw yw *lladrata*. Dwyn oddiar amser a gofod y deunydd angenrheidiol i adeiladu neuaddau preswyl, theatrau, colegau, swyddfeydd, senedd-dai, dinasoeidd, gwlad, lle gall yr iaith fwynhau ei phriod-arglwyddiaeth y tu mewn i'w thragwyddoldeb ei hun. Gormodiath? Nid wyf yn meddwl. Edrycher ar ein cymdogion y Saeson, chwedl yr Athro W.J. Gruffydd, ers llawer dydd. Diflanodd eu hymerodraeth ddaearol megis caddug ar y mynydd o flaen yr haul, ond erys ymerodraeth geiriau y Penlleidr gogoneddus William Shakespeare. Erbyn hyn y mae y Dyn Geiriau hwn yn sefydliad Seisnig pwysicach hyd yn oed na'r teulu brenhinol, a'u jiwbilli, a dinas Llundain a'u holl enillion anweledig gyda'i gilydd.

Gyda phob cyfansoddwr

mawr y mae sŵn arbennig yn perthyn i'w gerddoriaeth. A gorchwyl anodd yw dadansoddi'r gwaith er mwyn cael hyd i'r rhin cyfrin sy'n codi ohono. Ond yn sicr ddigon y mae gallu cyfareddol John Gwilym Jones i greu sgwrs a barddoniaeth sgwrs, yn gosod sel mawredd ar ei waith. Meddyliwch er enghraifft am eiriau yr hen Richard Gruffydd ar ddechreu *Gŵr Llonydd* “Unwaith erioed y bŵm i'n hwy'r yn y capel... unwaith 'rioed. Rydw i'n cofio'n iawn. 'Roedd yn gyfarfod pregethu yn Sardis, Llanegwyl. Ganol ha oedd hi, a finna wedi rhyw ddigwydd cysgu ar ôl tē, a'r bobl tŷ capel dwp rheini'n anghofio neffro i, a dyna lle'r oeddwn i'n rhedeg i fynyr allt a'r pen-blaenor, yr hen John Williams, Hafod, yn nrws y capel wedi myllio ac yn gweiddi nerth ei ben, 'Tyrd yn dy flaen, y llipryn diawl... lloed capel o bobol yn aros amdanat ti, a thithau'n llusgo...’”

Hen ŵr yn baglu drwy ei atgofion cymysg o'r gorffennol pell... hwy'rach yn wir. Ond o'i ystyried fel darn o gyfansoddi, greddf sicr yr artist gyda'i glust fendigedig sy'n gyfrifol am ddewis a dethol pob gair a phob saib, pob adrodd ac ailadrodd, pob cymal a phob ansoddair. Trwy hyn y mae John Gwilym Jones yn creu nid yn unig gymeriad o gig a gwaed ond hwydr ddarlun clir, fel llun mynydd ar wyneb llonydd llyn, o gymdeithas arbennig, o ffordd o fwy, o bawn Sul ers talwm iawn, iawn, sydd yn dod o farw i fyw bob tro yr adroddir y geiriau. Dyma ran o etifeddiaeth y naill genhedlaeth ar ôl y llall, y



glendid a fu, y dreftadaeth dragwyddol.

Camp arbennig y Dyn Geiriau yw pontio gagendor rhwng yr iaith lafar a'r iaith lenyddol. Dyma ran o swydd oesol y llenor yn niwylant Ewrop. Hyn sydd yn gyffredin rhwng dau mor annhebyg â Martin Luther a Bertolt Brecht. Yn y traddodiad hwn y mae dyrchafu iaith ei gymdeithas i lefel llenyddiaeth genedlaethol yn rhan ganolog o uchel swydd y dramaydd. Y mae pob Almaenwr llengar o'r Dwyrain neu o'r Gorllewin, yn Gristion neu'n Gomiwnydd neu'n Gyfalafwr yn mawrhau athrylith Brecht ac yn diolch amdano fel paf dadeni i'r iaith sy'n etifeddiaeth gyffredin iddynt. Y maent yn ddiwyd wrth godi theatrau arbennig ar gyfer ei waith — fel mae'r Saeson hwythau gyda Benjamin Britten. Nid llai yw ein dyled ni'r Cymry i athrylith John Gwilym Jones — brysiad y dydd y bydd ein systemau nawdd a'n systemau theatrig yn agor eu llygaid i weld ei fawredd.

Eu dyletswydd hwy yw creu'r amodau ar gyfer perfformiadau teilwng a chyson o'i waith. Trwy ddatlu bodolaeth y corff hwn o waith y bydd y sefydliadau hyn yn cyfiawnhau eu bodolaeth hwythau.

EMYR HUMPHREYS

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Gyda golwg ar helaethu'r gwasanaethau a gynigir yn Oriel yr ydym yn sefydlu

SIOP LYFRAU DEITHIOL

a fydd yn gwasanaethu ardal o fewn taith hanner diwrnod o Gaerdydd. Yr ydym yn chwilio am rywun fydd yn gyfrifol i Reolwr y Siop Lyfrau am gynllunio a gweithredu'r cynllun. Dylai ymgeiswyr fod â diddordeb byw mewn llyfrau Cymraeg a Chymreig a meddu ar drwydded yrru lân.

Cyflog ar raddfa £2,243 - £2,853.

Ceisiadau, yn cynnwys manylion llawn am gymhwysterau a gyrfa, i'w cyfeirio i'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX. Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau 21 Mawrth 1977.

DYDDIADUR DYN DWAD

5. Y CO AR Y CARPED

Be oedd y shoc fwya gafoch chi 'rioed? Mi ddeuda i wrtha chi be oedd yr un fwya gesh i. Newydd ddwad drosti rydw i.

Bora dydd Llun oedd hi a finna'n teimlo'n ofnadwy o giarni, wyddoch chi fel byddwch chi ar fore dydd Llun ar ôl tair noson ar y llysh? Mi alwodd Wilcox, bos y lle carpedi yn Howells, arna fi i ddeud bod 'na ddwy ddydas isho ngweld i. Isho ngweld i'n sbeshal! "Chans am dip," medda fi wrtha fi'n hun, a ffwrdd â fi i gweld nhw.

Roedd un wedi'i gwisgo mewn cot ffyr fowr lawr at i ffera a'r llall yn cario ambarel swane i gadw glaw mân y bore o ddar i gwalltia £20 nhw. Golwg râl crach ar rhein — bownd o gal tip.

"Y chi ydi Goronwy Jones?" medda'r Got Ffyr wrtha i yn bigog.

"Ia, fy madam, fedra'i neud fy ngorau i chi?" medda finna'n boleit i gyd.

"Y chi sy'n sgwennu'r pethau ffiadd a gwarthus yna yn *Y Dinesydd*?" medda'r Ambarel a'i llgada hi'n dechra tanio'n i phen hi.

Don i ddim yn gwbod yn iawn be odd gora imi ddeud. Do 'laen Gron bach, medda fi wrtha'n hun, iwsha dy fréns. Dydi rhein ddim yn edrach yn glên iawn.

"*Sbectol Sian* ydach chi'n feddwl, ia?" medda fi. "Naci'n tad, ddim fi ydi honno. Mi ddeuda i wrtha chi pwy 'di..."

"Eich sothach cableddus CHI yr ydan ni'n son amdano. Y dyn dwad felltith yna sy'n gwneud ensyniadau enllibus am ieuencid da ein prif-ddinas, yn llymeitian ei ffordd drwy fore ei oes, ac yn defnyddio geirfa nad yw'n un dim ond sen ar ein traddodiad Cristnogol Cymraeg..."

Ro'n i'n gweld sér. Fanna ro'n i yn y ngwaith yn hun am chwarter i ddeg ar fora dydd Llun yn cael yn nhrin fel hogyn ysgol gan ddwy bladras o ddynas nag oedd gin i ddim gobaith mul mewn Grand Nashnal i ddenig oddi wrthyn nhw. Wnesh i ddim teimlo fel hyn ers pan fuesh i o flaen Jones sgwl am fod yn hogyn drwg hefo Meira Bach Caethro ar gae'r ysgol ers talwm.

Roeddau nhw yno, meddan nhw, ar ran ryw gapal neu'i gilydd ac yn mynnu 'mod i'n stopio gyrru'r storis 'ma i'w papur lleol NHW.

"Ydach chi wedi eistedd yn

ôl am eiliad, fachgen, i ystyried yn ddwys effeithiau eich gweithredoedd?" ebe'r Ambarel. Ac yn sydyn, dyma hi'n dechra 'mhwnio fi hefo'r ambarel coch. Y 'mhwnio fi yn fy mol i ddechra a finna'n gneud am yn ôl tua'r wal. Ac wrth son am blant bach diniwed y ddinas yn cael eu llygru gan ynghelwyddau fi dyma hi'n dechra colli arni a mynd yn gynddeiriog, a dechra 'mheltio fi left, right and centre hefo'r ambarel. Hynny fedra'r got ffyr oedd ei dal hi'n ôl.

Erbyn hyn rodd lot o bobol yn y siop wedi stopio i sylu ar y twrw a'r sgrechian. Rodd gin i gwilidd ofnadwy, ac mi ddoth Wilcox draw i ofyn be goblyn o'n i'n feddwl o'n i'n neud yn ypsetio'r cwsmeriaid mor gythreulig.

"Gobeithio bod ych cydwybod chi'n dawel, dyna'i gyd," medda'r Got Ffyr wrth adael a'i braich rownd yr Ambarel a oedd yn sobian crio erbyn hyn. Eisteddish i ar Axminster i gael y ngwynt ata.

Y noson honno, gynta fedrwn i, mi esh i fyny i lle'r hogan sy'n gneud y papur 'ma a deud wrthi, "Sori del," medda fi, "Ma petha fel hyn yn ormod i'n nyrfis i. Dwi ddim yn mynd i sgwennu stroc arall ar gyfar y ----- anniolchgar. Gneud y ngora. Chwysu chwartaia hefo 'Geiriadur Mawr' ar yn llaw chwith a beiro ddu yn yn llaw dde fi. Straffaglu drwy eiriau Gymraeg na dwi rioed wedi gweld nhw o blaen er mwyn sgwennu pejan i'r papur 'ma a dyma dwi'n gal. Yn waldio'n gyhoeddus am yn nhrffarth. Sori de, ond 'na fo. Ma 'na ben draw ar gwstard wy?"

Nath y fodaen ddim deud llawar, ac rodd 'na rwbath yn deud wrtha fi bod hi'n falch bod fi'n stopio sgwennu. Rhwngthi hi a'i phetha medda fi wrtha'n hun, ac off a fi am beint i'r Ely.

"Aaaaaa! Dyma fo!" sgrechiodd Dai Shop pan esh i mewn i'r pyb. "Tyrd i weld be sginon ni fan hyn Gron bach." Be odd gynnon nhw ond y papur Cymraeg yna, *Y Cymro*. Nesh i gochi at ynghlustia achos be odd 'na ar dudalen flaen y papur mewn print bras ond hanas yr hogyn ac fel rodd o wedi ypsetio crach Cymraeg Caerdydd hefo'i sgwennu

C.S.E. Cymrodd hi bump peint o M & B i ddod a fi ata'n hun ac erbyn hynny dodd dim ots gin i eniwe. Rodd yr hogia i gyd yn deud 'na'r Snwyrwr odd y bai am y stori. Fydd o'n dwad rownd weithia i snwyrwr am storis. Dwi wedi weld o'n hongian wrth y bar fatha sbei.

"Ia. Y trwbwl ydi bod o'n cael i ddosbarthu yn y 'sgohon," medda Froggitt sy'n stiwdant ag yn meddwl gormod.

"Paid â malu -----," medda Dai Shop. "Ro'n i'n gwbod sut i regi'i hochor hi cyn mynd i'r ysgol o gwbl."

"Cofia 'na, angylion bach crach Caerdydd ydi rhein," medda Nowi Bala. "Ma rhein yn gorfod chwilio mewn papurau Cymraeg am eu rhegfeydd. Elli di feddwl am blant yn rhegi ar iard Bryntaf?"

"Up the L.R.A." medda Connolly.

"Ti'n eisiau peint o Guinness Gron bach?" medda Jero Jones, y dysgwr.

"Os stopi di sgrifennu nawr, ti'n rhoi lan w. Smo ti'n erfyn i nhw de'odi gosfa i ti?" medda Stan "Crossroads". Fydda i ddim yn dallt hannar be mae Stan yn ddeud chwaith.

Siarad fatha Caleb yn union.

"Mae nhw'n meddwl taw 'War Cry' Cymraeg ydi'r Dinesydd," medda Dai Corduroy.

"Ostriches," medda Penniman gan roid ei wydyr i lawr yn glep ar y bwrdd nes bod i lager o'n sboncian.

Rodd yr hogia hefo fi'r holl ffordd ac yn sydyn, dyma fi'n teimlo'n ddigon calonog i ddeud hanes y bora wrthyn nhw. Rodd y lle'n ryeshiwns a phowb yn bystio chwerthin dros lle pan sonish i am yr ambarel.

Wnaos dwetha, ro'n i'n cerddad lawr yr 'Hayes', wedi bod yn y 'Greyhound' amser cinio, a phwy welish i'n ei lordio hi wrth siop 'Joe Coral' ond y Got Ffyr a'r Ambarel ei hunan. Fyswn i'n taeru bod nhw'n siarad Susnag hefo'i gilydd, ond doedd hynny ddim yn bosib achos bod y ddwy'n siarad Cymraeg hefo fi yn Howells. Rodd yr ambarel yn cael ei iwsho tro 'ma i hel o'r neilltu rhyw alci chwil oedd yn begio am bres. Ac yn y fan a'r lle, dyma fi'n teimlo'n benderfynol 'mod i'n mynd i sgwennu un dshyn arall o leia. Doedd y ddwy yna ddim am ynghuro fi.

GORONWY JONES

BYWYD

Dydd Mawrth 29ain o Fawrth
am 10.35p.m.

Dafydd Iwan yn tywys y
gwylwyr yn ei gynefin yn

Arfon. Bydd yn trin a thrafod
problemau'r gymdeithas

wledig



o'r Ganolfan Deledu yng
Nghaerdydd

“Mynd i'r Cŵn” — ac ennill pres!

Mae'n hysbys o ymddangosiad yr ymatebiadau ffafriol a ddaeth yn sgil cyfres o erthyglau a brintwyd yng ngholofnau'r Dinesydd yn ddiweddar fod diddordebau mwy eangfrydig gan Gymry Caerdydd nag a fu'n hysbys yn y gorffennol. Cymerer cŵn er enghraifft. Mae pawb yn hoff ohonynt fel dodrefnyn ar y mat o flaen tanllwyth o dân neu yn ufudd wrth ei sawld pan yn cerdded drwy Grangetown ar ddiwrnod gem beldroed. Ond mae gan gŵn rin arbennig pan fyddant yn arddangos rhif ar ei cefnau a muzzle ar eu trwynau. Gellir eu hedmygu yn eu heglu hi ar ôl ffug-gwningen rownd odre'r parc cenedlaethol gyda rhyfeddod perffaith.

Hyd yn oed os nad oedd diddordeb gennych mewn cŵn fel pethau esthetig mae digonedd i ddenu eich bryd lawr yng nghyfarfodydd y cŵn bob nos Lun a nos Sadwrn o dan amdo stand y de yn y Parc Cenedlaethol. Yfed a betio er enghraifft. Dyma ychydig o ganllawiau i'w dilyn os y byddwch yn ddygon hyderus i hapchwarae ar dynged ci neu gŵn, lawr yno.

Yn gyntaf mae dau fodd o fetio yno. Gellir betio ar y 'tote' lle rydych yn proffwydo trefn y canlyniad (h.y. 20 ceiniog ar trap 1 + 2, neu 20 ceiniog ar 3 + 5 a 5 + 3 — sef bet a gyst 40 ceiniog). Mae mantais amlwg ar fetio yn y modd diwethaf. Yn ail gellir betio ar un ci yn unig gyda'r bwais — rhan amlaf ceir stondinau o tua deuddeg ohonynt o flaen y trac — bwais yn hannu o Bontypridd i Gasnewydd, o Gaerffili i Lundain. Mantais betio ar y trac yw fod treth yn hanner yr hyn a ofynnir mewn siop fetio gyffredin — sef 4% o'i gymharu ag 8%. Rwan, rydych bron yn barod i ddechrau betio.

Rhaid cofio fod trapiau 5 + 6 i'w ffafrio yng Nghaerdydd, yn enwedig felly yn ystod y ddwy ras gyntaf. Mae angen ci craff a chyflym i dorri'n fuan o trapiau 3 + 4 (gelwir y ddau drap yma yn *coffin boxes*) ond os yw ei gynberfformiadau yn haeddu sylw arbennig gellir mentro y ceir pris llawer gwell arno na phe petasai yn rhedeg o trap 5 neu 6.

O gymharu â thraciau mawr megis Hackney, Watford, Harringay a Catford nid yw theori o ddyblu bet ar gŵn perchenogion, ras ar ôl ras, yn gweithio yng Nghaerdydd — ond eto'i gyd, mae perchenogion cydwybodol i'w cael lawr yno-ac

hyfforddwy'r da wrth gwrs. Gellir dilyn Mrs O.M. Barry a Mr Doolan gyda thipyn o optimistiaeth ond gwell peidio â'u dilyn yn ddall gan nad yw ffefrynau Caerdydd mor wadal â ffefrynau traciau Lloegr.

Un reol gadarn i'w dilyn yw byth â threio adennill colledion trwm. Felly os yw ci yn y ras ddiwethaf yn agor fel ffefryn gweddol ei bris — 5/2, 11/4, neu 3/1 er enghraifft — ac yn caledu, i ortten cyn i'r gwningen ddechrau, ar 5/4 neu 11/10 — gellir mentro fod llawer o arian gobaith ar ei gefn, yn hytrach nag arian a fetiwyd ar sail safon y ci. Os ydych am fetio ar gŵn sydd yn gul eu pris megis 1/1 neu 8/11 mae'n hanfodol fod gennych rhyw wybodaeth mewnl ac yn ail fod eich bet yn adlewyrchiad o'ch hyder a'ch dymuniad i wneud elw na fydd yn cael ei lynu gan grafangau'r dreth anfoesol ar ennillion — o 4% yn y bunt.

Dipyn o fytholeg yw'r coelion gwraich a glywir yn y bar o bryd i'w gilydd — er enghraifft t'oes dim sail i'r honiad fod ci sy'n piso cyn ras yn debygol o ennill — nid ar gyfer nodi pethau fel yr rhain yr ewch i archwilio cŵn yn y *paddock* arddangos cyn iddynt fynd allan i'r parc. Yn hytrach edrycher am berchennog yn gadael y llecyn arddangos yn fuan gan anelu at stodin y bwais neu yn mwman siarad â rhywun wrth ymyl y giat.

Cofier mai cŵn dros 28 Kilo sydd â'r fantais yn nhrapiau 1, 2, 3 tra bod cŵn oddi tan hynny yn well o drapiau 4, 5 6. Hefyd sylwer fod ci sydd wedi colli Kilo a hanner neu fwy ers y ras ddiwethaf yn cael ei hyfforddi gyda'r pwrpas o ennill yn y dyfodol agos. Yn olaf byddwch yn ofalus ac ymwybodol o bopeth a ddigwydd o'ch

ARLUNYDD GRAFFIG

Mae ein Cwmnïau argraffu a chyhoeddi bychain yn prysur ehangu, ac yr ydym yn chwilio am arlunydd graffig i ymgymryd ag amrywiaeth o waith dylunio a gwaith gosod allan. Fe fyddwn yn argraffu popeth, o lythyr-benawdau i lyfrau a chylchgronau.

Y mae'r gallu i weithio heb arolygiaeth, ac i gyflawni gwaith o fewn terfynau amser penodedig yn hanfodol. Ni fydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â phrofiad ymarferol eang, ond rhaid iddo/iddi wrth wybodaeth ddamcaniaethol drylwyr yn y maes.

Gellir gweithio o Gaerdydd neu o Aberdâr.

GRŴP AP DAFYDD, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf, Caerdydd CF1 8LW. Ffôn : 396262.

Eisteddfod Fo a Fe

Noson lwyddiannus dros ben oedd yr Eisteddfod a gynhaliwyd gan Gymdeithas Eglwys Heol y Crwys nos Fercher, Chwefror 9fed, sef EISTEDDFOD FO A FE. Cafwyd cystadlu brwd hyd oriau man y bore a llawer o gyfansoddiadau o ansawdd uchel iawn. Wele'r pedwar englyn gorau isod; ym marn y beirniad, Mr Eryl Roberts, roedd yn eglwynion o safon genedlaethol. Y Deheuwyr a orfu yn y pendraw, ond mae 'na sibrydionia chwynion difrifol wedi cyrraedd clustiau'r Golygydd, sy'n awgrymu fod y Gogleddwyr wedi CAEL CAM....

DATGANOLI

1af Cyn hir, genir o'r gynnen — ein Senedd
Yn sianel i'n diben,
A chynnau o'r wreichionen
Fflam a dania Walia Wen.

Nid Sant Steffan

Ail Anwadal wyt, genedl wan, — ti ddenaist
Dy haeddiannol gyfran;
Senedd ddi-rinwedd dy ran,
Siaradle teyrnas rwdlan.

Sali'r Iâr Sosi

3ydd Rhyw genedl na wŷr gynnydd — yw honno,
Heb enaid, na chenfydd
Mai hon yw'r ffordd, mewn hir ffydd,
I'w cherdded at wych wawrddydd.

Glanyrafon

4ydd Di, ddi-blu geiliog sy'n crogi, — echdoe
Fu'n clochdar o'r perthi;
Ar ôl dy ddatganoli
Daw ffawd waeth — dy stwffio di.

Bardd y briws

Yn eisiau — Cymraes i
rannu fflat yn Ninian
Rd. Ffônwch 36844.

cwmpas a gallai 1977 fod yn fwyddyn broffidiol ichwi lawr yn y parc cenedlaethol.

Os am 'tips' eleni edrychwch allan am Postman Jim, (Nap *** yn mis Chwefror), a hefyd Tomhaggard Gift, Rhondda Lad a Snazzy.

MOT LLYWELYN

CYLCH MEITHRIN CYMRAEG RADUR

Mae angen person gyda chymwysterau addas i fod yn gyfrifol am y Cylich uchod am bedwar bore yr wythnos rhwng 10 a 12 o'r gloch.

Am fanylion pellach cysyllter â Mrs Eryl Thomas. Ffôn: 842916.